Rhif: **WG18870**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – Adroddiad Cryno

# Awdurdodaeth Gyfreithiol ar Wahân ar gyfer Cymru

Dyddiad cyhoeddi: **04 Rhagfyr 2013**

© Hawlfraint y Goron 2013 WG18870

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Y Diben a’r Cefndir | 4 |
| Egwyddor cael Awdurdodaeth ar Wahân ar gyfer Cymru | 6 |
| Y diffiniad o awdurdodaeth gyfreithiol a’i nodweddion hanfodol | 8 |
| Tiriogaeth Ddaearyddol Ddiffiniedig | 10 |
| Corff o gyfreithiau | 11 |
| Gweinyddu Cyfiawnder | 14 |
| Y Proffesiwn Cyfreithiol | 18 |
| Model datganoli cadw pwerau yn ôl | 21 |
| Enghreifftiau Rhyngwladol | 22 |
| Cost | 23 |

## Rhagair

Hoffem ddiolch i bawb a ymatebodd am roi o'u hamser i ystyried cwestiynau'r ymgynghoriad ar awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru, ac am gyflwyno tystiolaeth mor gynhwysfawr. Bu'r ymatebion o gymorth mawr i Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu polisi. Roedd adroddiad gwerthfawr Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2012, hefyd o ddefnydd inni.

Cafwyd trafodaeth helaeth ar fanteision ac anfanteision cael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yn yr ymatebion i'n hymgynghoriad. Mae llawer o'r rheini sydd o blaid sefydlu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yn cydnabod na fydd hyn yn digwydd yn fuan, ond ei fod yn debygol o ddigwydd rywbryd yn y dyfodol wrth i gyfreithiau Cymru a Lloegr ymwahanu fwyfwy. Credant mai da o beth fyddai cymryd camau cychwynnol yn awr er mwyn hwyluso'r newid. Rwyf innau'n cytuno â'r farn honno.

Nodwyd casgliadau Llywodraeth Cymru yn ei thystiolaeth i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk) ym mis Chwefror eleni, a cheir crynodeb ohonynt ym mharagraffau 16-19 o'r dystiolaeth honno. Mae hyn yn dangos yn glir fod cyswllt agos rhwng yr achos dros sefydlu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân a'r ffordd y mae sefyllfa gyfansoddiadol y Deyrnas Unedig yn datblygu, ynghyd â safle Cymru ynddi.

Yn ein tystiolaeth i Gomisiwn Silk, cynigiodd Llywodraeth Cymru y dylid datganoli'r Heddlu, ond nid Cyfiawnder Troseddau a Gweinyddu Cyfiawnder, er mai dyna yw ei hamcan yn y tymor hir. Gan nad yw'r cyfrifoldeb am Gyfiawnder Troseddol wedi'i ddatganoli, mae'n dilyn na fyddai symud tuag at awdurdodaeth ar wahân o fudd i bobl Cymru yn awr.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylem baratoi am adeg pan fydd angen awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân, ac adeg y bydd hynny o fudd. Fel rhan o'r gwaith paratoi hwnnw, bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i wella hunaniaeth Cymru o fewn awdurdodaeth gyfun Cymru a Lloegr a datblygu'r sylfeini ar gyfer ffurfio unrhyw awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru, os penderfynir gwneud hynny yn y dyfodol. Mae amryw o gamau defnyddiol y gellir eu cymryd i sicrhau ein bod yn trosglwyddo'n esmwyth i awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yn y tymor hir, ac mae'r rhain i'w gweld yn nhystiolaeth Llywodraeth Cymru i Gomisiwn Silk.

Rydym yn darparu'r crynodeb hwn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'n casgliadau er mwyn cynorthwyo gwaith ymchwil a thrafodaethau ar y pwnc pwysig hwn yn y dyfodol.

**Y GWIR ANRH CARWYN JONES AC**
Prif Weinidog Cymru

**THEODORE HUCKLE QC**
Y Cwnsler Cyffredinol

## Diben

Diben y ddogfen yw rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a lywiodd safbwynt Llywodraeth Cymru ar Awdurdodaeth Gyfreithiol ar Wahân, fel y'i hamlinellwyd yn ei thystiolaeth i Gomisiwn Silk ym mis Chwefror 2013. Cynorthwyo gwaith ymchwil a thrafodaethau yn y dyfodol yw'r nod.

## Cefndir

Yn y refferendwm a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2011, pleidleisiodd pobl Cymru o blaid rhoi rhagor o bwerau deddfu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Canlyniad hynny oedd bod y darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n galluogi'r Cynulliad i basio deddfwriaeth sylfaenol (a elwir yn Ddeddfau'r Cynulliad) ym mhob un o'r meysydd datganoledig, wedi dod i rym ym mis Mai 2011.

Ymhlith pethau eraill, mae hyn yn golygu nad oes raid cael cydsyniad Senedd y Deyrnas Unedig, bellach, cyn y caiff y Cynulliad ddeddfu yn y meysydd datganoledig hynny. Erbyn hyn, mae'r pŵer gan y Cynulliad i basio Deddfau'r Cynulliad, sy'n dod yn gyfraith pan fydd Ei Mawrhydi yn rhoi Cydsyniad Brenhinol iddynt. O fewn ei bwerau, caiff y Cynulliad, trwy gyfrwng Deddf, wneud unrhyw beth y gallai un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig ei wneud.

Mae Senedd y Deyrnas Unedig yn sofran ac mae'n cadw'r pŵer i ddeddfu ar unrhyw fater yng Nghymru. Fodd bynnag, ceir confensiwn na fydd Senedd y Deyrnas Unedig, fel rheol, yn deddfu ar fater datganoledig yng Nghymru heb gydsyniad y Cynulliad[1].

Oherwydd mai un awdurdodaeth gyfreithiol gyfun yw Cymru a Lloegr, mae'r cyfreithiau a wneir gan y Cynulliad neu gan Senedd y Deyrnas Unedig yn dal yn rhan o gyfraith Cymru a Lloegr, hyd yn oed os mai dim ond yng Nghymru y bwriedir iddynt fod yn gymwys. Ar ôl y refferendwm datganoli ym 1997, ac yn arbennig yn sgil y refferendwm diweddaraf yng Nghymru ar bwerau deddfu'r Cynulliad, bu llawer o drafod a ddylai Cymru fod yn awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ai peidio.

Ar 7 Hydref 2011, gwnaeth Prif Weinidog Cymru ddatganiad ysgrifenedig i'r Cynulliad yn cyflwyno bwriad Llywodraeth Cymru i lansio trafodaeth gyhoeddus ar y mater. Lansiodd y Cwnsler Cyffredinol yr ymgynghoriad ar awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân trwy ddatganiad llafar i'r Cynulliad ar 28 Mawrth 2012. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y byddai'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn help wrth baratoi tystiolaeth Llywodraeth Cymru i Gomisiwn Silk (y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru), ar Ran II o'i gylch gwaith ynghylch setliad datganoli Cymru.

[1] Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a Chytundebau Atodol Rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Gweinidogion yr Alban, Gweinidogion Cymru a Phwyllgor Gweithredol Gogledd Iwerddon – Mehefin 2011.

Roedd y ddogfen ymgynghori yn gofyn 29 o gwestiynau unigol gyda'r nod o ateb nifer o gwestiynau ar themâu ehangach, sef:

- Beth yw ystyr y term "awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân";
- a oes rhyw nodweddion sy'n hanfodol er mwyn cael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ac, os felly, beth ydynt;
- beth yw canlyniadau posibl cael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru; a
- beth fyddai manteision ac anfanteision posibl cael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 19 Mehefin 2012. Derbyniwyd chwe deg wyth o ymatebion. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn mynd i'r afael â themâu penodol, sef:

- Egwyddor cael Awdurdodaeth ar Wahân ar gyfer Cymru;
- Nodweddion hanfodol Awdurdodaeth ar Wahân;
- Tiriogaeth ddiffiniedig;
- Corff o gyfreithiau;
- Gweinyddu cyfiawnder / System lysoedd ar wahân;
- Y proffesiwn cyfreithiol;
- Y setliad datganoli cyfredol;
- Datganoli rhagor o bwerau;
- Model datganoli cadw yn ôl;
- Enghreifftiau rhyngwladol;
- Cost.

## Egwyddor cael Awdurdodaeth ar Wahân ar gyfer Cymru

Wrth drafod mater cyffredinol awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn syrthio i ddau grŵp. Roedd y grŵp cyntaf yn trafod egwyddorion cyffredinol awdurdodaeth ar wahân ac yna'n trafod, yn fanwl, rinweddau'r gwahanol elfennau ee system lysoedd ar wahân, proffesiwn cyfreithiol ar wahân. Roedd y grŵp arall fel pe bai'n edrych ar awdurdodaeth ar wahân fel pecyn cyflawn; hynny yw, pe byddai Cymru yn cael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân, byddai nifer o nodweddion yn dilyn yn awtomatig o'r penderfyniad hwnnw. Roedd hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar system lysoedd ar wahân ar gyfer Cymru a datganoli pwerau ym maes gweinyddu cyfiawnder.

Ar y cyfan, roedd teimladau cymysg ynghylch egwyddor gyffredinol cael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân. Cyflwynodd tri deg naw o ymatebwyr y dadleuon ynghylch awdurdodaeth ar wahân gan godi materion y byddai'n rhaid eu hystyried pe cyfrifid bod angen awdurdodaeth ar wahân, ond ni fynegwyd barn bendant ganddynt y naill ffordd na'r llall. Mynegodd rhai ymatebwyr yn bendant na fyddent yn dweud a oeddent o'r farn y dylai Cymru gael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ai peidio gan roeddent yn ei weld fel cwestiwn gwleidyddol yn hytrach nag un cyfreithiol. Aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol oedd y rhain yn bennaf.

Roedd dau ar bymtheg o ymatebwyr o blaid yr egwyddor o awdurdodaeth ar wahân, yn bennaf oherwydd y posibilrwydd y byddai cyfreithiau Cymru a rhai Lloegr yn ymwahanu fwyfwy yn y dyfodol. Teimlai llawer o'r ymatebwyr na fyddai awdurdodaeth unedig yn gynaliadwy oherwydd y cynnydd ym mhwerau deddfu'r Cynulliad yn sgil refferendwm 2011. Teimlai eraill fod awdurdodaeth ar wahân yn rhan naturiol o ddatblygiad datganoli a'i fod yn hanfodol i'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn cyflenwi gwasanaethau i bobl Cymru.

Cyflwynodd dros hanner yr ymatebwyr ddadleuon yn ymwneud ag egwyddor awdurdodaeth ar wahân. Dywedodd un, "Dylai cyfreithiau a wneir yng Nghymru, ar gyfer Cymru, gael eu penderfynu gan bobl Cymru ac, yn y pen draw, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru. Dylai cyfreithiau a wneir yng Nghymru, ar gyfer Cymru, fod yn rhan o gyfraith Cymru yn unig, ac ni ddylent barhau'n rhan o gyfraith Cymru a Lloegr." Yn yr un modd, dadleuodd ymatebwyr y dylai dinasyddion Cymru gael mynediad hwylus at y system gyfiawnder; dylai fod yn hawdd iddynt weld pa gyfraith sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau hwy a pha gynrychiolwyr etholedig sydd â'r pŵer i newid y gyfraith honno; a dylent gael defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg mewn achosion cyfreithiol. Teimlent y gallai awdurdodaeth ar wahân gael effaith gadarnhaol ar yr amcanion hyn. Yn ôl un ymatebydd, os gall awdurdodaeth Jersey weithio, nid oes rheswm pam na fyddai awdurdodaeth ar gyfer Cymru yn gweithio.

Roedd dadleuon eraill yn canolbwyntio ar gael cydraddoldeb â'r Alban a Gogledd Iwerddon. Hynny yw, mae gan Gymru bwerau deddfu sylfaenol ac felly dylai gael awdurdodaeth ar wahân fel sydd gan yr Alban a Gogledd

Iwerddon. Aeth rhai â'r ddadl hon ymhellach a dod i'r casgliad y byddai cydraddoldeb llawn â'r Alban a Gogledd Iwerddon yn golygu cyfrifoldeb llawn dros weinyddu cyfiawnder a system lysoedd ar wahân.

Dadleuodd deuddeg o ymatebwyr yn erbyn egwyddor awdurdodaeth ar wahân gan godi pryderon penodol. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn anghytuno â'r egwyddor yn teimlo bod hynny'n ddiangen gan fod yr awdurdodaeth gyfun bresennol wedi bod yn llwyddiannus ers canrifoedd. Roeddent hefyd yn dadlau bod y setliad datganoli cyfredol yn ddigon cryf i ymdrin yn llwyddiannus ag unrhyw ymwahanu rhwng cyfreithiau Cymru a rhai Lloegr. Fe ddadleuwyd nad oedd gyfiawnhad dros wariant ychwanegol yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Teimlai rhai mai mater gwleidyddol oedd hyn ac y dylid bod wedi'i drafod yn ystod ymgyrch refferendwm 2011.

Teimlai rhai ymatebwyr a oedd o blaid y status quo y gallai'r newid niweidio enw da awdurdodaeth Cymru a Lloegr a'r cadernid y mae wedi'i fagu dros y canrifoedd. Teimlai un ymatebydd mai dadl wag oedd ceisio cydraddoldeb â'r Alban a Gogledd Iwerddon gan fod sylfaen hanesyddol i'w hawdurdodaethau hwy ac felly nad oedd hon yn ddadl ddilys o blaid awdurdodaeth ar wahân ar gyfer Cymru. Roedd ymatebydd arall yn cefnogi hyn gan ddweud nad oedd unrhyw dystiolaeth y gallai llysoedd yr Alban na Gogledd Iwerddon sicrhau cyfiawnder o safon uwch. Roedd ymatebydd arall yn teimlo bod Cymru yn wlad rhy fach i fod angen awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ac y gallai creu awdurdodaeth o'r fath achosi i'r bobl fwyaf dawnus ym maes y gyfraith symud i Loegr. Teimlai'r ymatebydd hefyd y gallai awdurdodaeth ar wahân rwystro pobl rhag buddsoddi yng Nghymru.

Tynnodd ymatebwyr eraill sylw at yr anawsterau y byddai awdurdodaethau ar wahân yn eu hachosi i wahanol rannau o'r gyfraith ee cyfraith masnach ac elusennau, ac i fuddsoddiad posibl a modelau busnes cymhleth. Teimlent fod y materion hyn yn ddigon cryf i gyfiawnhau gwrthwynebu egwyddor gyffredinol awdurdodaeth ar wahân.

**Casgliad:**
**Barn Llywodraeth Cymru yw bod cysylltiad agos iawn rhwng yr achos dros sefydlu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân a'r ffordd y mae sefyllfa gyfansoddiadol y Deyrnas Unedig yn datblygu, a safle Cymru ynddi. Y cwestiwn yw a ddylai Cymru gael ei system lysoedd ei hunan, yn gweithredu ochr yn ochr â'r ddeddfwrfa a'r weithrediaeth bresennol. Mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad na fyddai pobl Cymru yn debygol o elwa pe byddai awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yn cael ei sefydlu ar gyfer Cymru yn awr, heb set resymol lawn o bwerau ym maes Cyfiawnder. Fodd bynnag, dylem baratoi ar gyfer amser pan allai awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân fod yn angenrheidiol ac yn fuddiol.**

## Y diffiniad o awdurdodaeth gyfreithiol a'i nodweddion hanfodol

Cyflwynwyd sawl barn ar y mater hwn i Lywodraeth Cymru. Cyflwynodd nifer o ymatebwyr ddiffiniadau amlinellol o ystyr y term "awdurdodaeth gyfreithiol". Er bod llawer ohonynt yn pwysleisio ei bod yn anodd ei ddiffinio'n fanwl, cyfeiriwyd at rai o nodweddion penodol awdurdodaeth, sef bod ganddi diriogaeth ddiffiniedig, bod corff o gyfreithiau cynhenid, ei bod yn cynnwys sefydliadau cyfreithiol a bod ganddi system lysoedd. Roedd nifer o ymatebwyr yn dadlau nad oedd system lysoedd ar wahân yn un o nodweddion hanfodol awdurdodaeth ar wahân.

Nid aeth y mwyafrif o ymatebwyr ati yn uniongyrchol i nodi nodweddion hanfodol awdurdodaeth ar wahân. Soniodd rhai wrth basio am yr angen am gorff o gyfreithiau ar wahân. Roedd eraill yn teimlo bod system lysoedd ar wahân a/neu gyfrifoldeb llawn am weinyddu cyfiawnder ymhlith nodweddion hanfodol awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân.

Aeth rhai ymatebwyr ati i ymdrin yn uniongyrchol â'r hyn yr oeddent hwy'n ei gyfrif yn nodweddion hanfodol awdurdodaeth ar wahân. Yn ôl un ymatebydd, mae creu cyfreithiau sy'n gymwys yn lleol ymhlith nodweddion hanfodol awdurdodaeth ar wahân, er y byddai angen i hyn gyrraedd rhyw bwynt cyn y byddai awdurdodaeth ar wahân yn hanfodol. Dywedodd ymatebydd arall y gall corff o gyfreithiau wedi'i neilltuo ar gyfer y diriogaeth y mae'n gymwys iddi, p'un a yw'r cyfreithiau'n sylweddol wahanol i gyfreithiau awdurdodaethau cyfreithiol eraill ai peidio, a bod hyn yn un o nodweddion hanfodol awdurdodaeth ar wahân.

Aeth un ymatebydd ati i amlinellu'r holl nodweddion y teimlai eu bod yn hanfodol ar gyfer awdurdodaeth ar wahân, yn enwedig yn achos Cymru. Sef:

*gweithdrefn weinyddol i benderfynu ar awdurdodaeth achosion; y byddai llysoedd yng ngweddill y Deyrnas Unedig yn datgan forum non conveniens (pŵer disgresiwn sydd gan lys i wrthod ymarfer ei awdurdodaeth os yw'n fwy cyfleus i lys arall wrando ar achos) i achosion sy'n ymwneud â Chymru; llys newydd i ystyried heriau i gyfreithiau Cymru; yr angen addysgol ychwanegol i rai o aelodau'r proffesiwn cyfreithiol ddod yn gyfarwydd â chyfraith Cymru a chyfraith ryngwladol fel y mae'n gymwys yma, ynghyd â darpariaethau i'r rhai sy'n dymuno ysgrifennu cyfreithiau oddi mewn i derfynau'r setliad cyfredol; datganiad prosbectws gan gyrsiau cyfraith addysg bellach, addysg uwch a galwedigaethol am eu perthnasedd i'r Cwricwlwm Cymru; adnoddau dwyieithog; llyfrgelloedd o gyfreithiau Cymreig; Arglwydd Prif Ustus ar gyfer Cymru; yr angen i Gymru gael ei chynrychioli yng Ngoruchaf Lys y Deyrnas Unedig.*

Rhoddodd ymatebydd arall ddisgrifiad manwl o nodweddion awdurdodaeth ar wahân. Dyma'r nodweddion y cyfeiriwyd atynt: tiriogaeth neilltuol; cyfraith neilltuol; system gyfreithiol neilltuol; a rheolau am wrthdaro cyfreithiau (y berthynas ag awdurdodaethau eraill). Dywedodd yr ymatebydd hefyd mai nodwedd allweddol awdurdodaeth ar wahân yw'r rheolau sy'n ymwneud â'r

berthynas â systemau cyfreithiol eraill. Pe byddai llysoedd Lloegr a'r Alban yn ystyried cyfraith Cymru yn estron, byddai hynny'n golygu bod gan Gymru awdurdodaeth.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr bod corff o gyfreithiau ar wahân yn hanfodol. Dywedodd dau ymatebydd nad oedd corff neilltuol o gyfreithiau yn hanfodol er mwyn cael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân. Ond roedd y ddau'n gytûn ei bod yn debygol iawn y byddai corff neilltuol o gyfreithiau yn bodoli yn yr awdurdodaeth honno, ac y dylid cynllunio ar gyfer gwahanu'r awdurdodaethau cyn i gyfreithiau Cymru a Lloegr ymwahanu gormod.

**Casgliad:**
**Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai nodweddion allweddol awdurdodaeth ar wahân yw tiriogaeth ddiffiniedig gyda chorff neilltuol o gyfreithiau a'r pheirianwaith sefydliadol ei hun, gan gynnwys deddfwrfa, llysoedd a barnwriaeth. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cyflawni rhaglen o ddiwygio tribiwnlysoedd, ac fel rhan o'r gwaith hwnnw mae'n gweithredu argymhellion Pwyllgor Cymru'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn ei Adolygiad o'r Tribiwnlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru. Ein nod hirdymor yw datblygu system gydlynol o dribiwnlysoedd yng Nghymru a fydd yn gwrando ar apelau'n ymwneud â phob mater sy'n perthyn i faes datganoledig.**

**Mae nifer o gamau defnyddiol y gellid eu cymryd i baratoi'r ffordd – camau a fyddai'n adlewyrchu realiti datganoli a'r sefyllfa gyfreithiol wahanol sy'n datblygu. Gallai hynny helpu i hwyluso'r broses o symud tuag at awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yn y tymor hwy. Ymysg y camau hyn byddai:**

- **sicrhau hunaniaeth Gymreig fwy amlwg yn y llysoedd uwch: er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi dadlau o blaid cael aelod o Gymru yn y Goruchaf Lys.**

- **sefydlu swyddfa i'r Llys Apêl yng Nghymru cyn gynted ag y bo modd, ac ymrwymo'n ffurfiol i gynnal gwrandawiadau ar achosion Cymreig yng Nghymru pryd bynnag y bo modd. Dylid ystyried hefyd sefydlu Rhanbarth Cymreig o'r Llys Apêl – oddi yno wedyn y ceid barnwyr y byddai disgwyl iddynt wrando ar achosion apêl Cymreig.**

- **sefydlu swyddfa yng Nghymru ar gyfer adrannau eraill o'r Uchel Lys i gyd-fynd â'r hyn sydd ar gael eisoes ar gyfer y Llys Gweinyddol.**

## Tiriogaeth Ddaearyddol Ddiffiniedig

Roedd tua thri chwarter o'r ymatebwyr yn gytûn y dylai awdurdodaeth fod yn gymwys i ardal ddaearyddol benodol ac mai'r diffiniad o "diriogaeth ddiffiniedig Cymru" a geir yn Adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 oedd y diffiniad mwyaf addas ar gyfer hyn. Cytunai'r ymatebwyr y dylid diffinio Cymru yn ôl arwynebedd ei thir a'r dyfroedd tiriogaethol sy'n cynnwys y môr gerllaw Cymru allan hyd at derfyn pellaf y môr tiriogaethol. Ni nododd yr ymatebwyr hyn a oeddent o'r farn y dylai'r diffiniad hwn gynnwys Parth Cymru hefyd.

Yn ôl un ymatebydd, er y byddai'n anodd cael awdurdodaeth ar wahân ar gyfer Cymru heb gael rhywbeth y gellir ei adnabod fel "Cymru", gallai union ffiniau Cymru newid dros amser ac ni fyddai hynny'n golygu y byddai awdurdodaeth ar wahân ar gyfer Cymru yn dod i ben.

Cytunai ymatebydd arall bod y diriogaeth ddaearyddol ddiffiniedig yn un agwedd ar awdurdodaeth ar wahân; dywedodd hefyd fod nifer o awdurdodaethau yn defnyddio naill ai ddomisil neu breswylfan arferol i ddiffinio'i therfynau. Os bwriedir i Gymru fod yn awdurdodaeth ar wahân, bydd angen penderfynu ar reolau ar gyfer pennu beth yw 'domisil' a rheolau ar gyfer pennu beth yw 'preswylfan arferol' rhwng Cymru a Lloegr.

Credai un ymatebydd fod Cymru yn "wlad rhy fach" i gael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân wrth cadw mewn meddwl fod Cymru a Lloegr yn "gydgysylltiedig".

**Casgliad:**
**Mae Llywodraeth Cymru o'r farn fod tiriogaeth ddiffiniedig yn nodwedd allweddol o awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân. Dylai diffiniad o'r fath o Gymru gynnwys y môr gerllaw Cymru allan hyd at derfyn pellaf y môr tiriogaethol a Pharth Cymru (fel y'i diffiniwyd yn Adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, o'i ddarllen ochr yn ochr â Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o'r enw The Welsh Zone (Boundaries and Transfer of Functions) Order 2010/760.**

## Corff o Gyfreithiau

Roedd yr ymatebwyr bron i gyd yn teimlo bod corff o gyfreithiau neilltuol yn nodwedd hanfodol o awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân. Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn nad oedd cyfraith Cymru wedi ymwahanu ddigon oddi wrth gyfraith Lloegr ar hyn o bryd i deilyngu awdurdodaeth ar wahân. Dadleuodd yr ymatebydd yma bod cyfraith Cymru yn debygol o ymwahanu fwy oddi wrth gyfraith Lloegr ac y byddai'n syniad da sefydlu awdurdodaeth ar wahân rhag blaen. Fel y nododd un ymatebydd "byddai datblygu awdurdodaeth ar wahân yn gam doeth i'w gymryd mor fuan ag y bo modd yng nghyd-destun y corff hwnnw o gyfreithiau sy'n cynyddu'n barhaus"

Teimlai eraill ei bod bron yn amhosibl dweud ymlaen llaw pryd y mae corff o gyfreithiau yn ddigon gwahanol i wneud awdurdodaeth ar wahân yn angenrheidiol. Dywedodd ychydig o'r ymatebwyr y byddai'r corff o gyfreithiau yn ddigon gwahanol i deilyngu awdurdodaeth ar wahân pan fyddai pobl Cymru o'r farn ei fod yn ddigon gwahanol. Nid oedd hon yn farn gyffredin. Dywedodd un ymatebydd fod unrhyw wahaniaeth rhwng cyfreithiau Cymru a rhai Lloegr yn ddigon, ac nad oedd wahaniaeth ai cyfraith statud neu'r gyfraith gyffredin oedd hon. Er enghraifft, awdurdodaeth cyfraith gyffredin yw Gogledd Iwerddon ac mae ganddi ei Chynulliad deddfwriaethol ei hun. Dywedodd dau ymatebydd y byddai cyfreithiau Cymru a Lloegr yn ymwahanu ond y gallai hyn ddigwydd am fod Senedd y Deyrnas Unedig yn gweithredu cyfreithiau ar gyfer Lloegr yn unig, yn ogystal â bod y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithredu cyfreithiau ar gyfer Cymru yn unig.

Tynnodd ambell un o'r ymatebwyr sylw at drefniadau cyfredol y Llys Gweinyddol yng Nghymru. Ers i'r Llys Gweinyddol gael ei agor yng Nghymru, meddent, yng Nghymru y cynhelir y rhan fwyaf o'r gwrandawiadau pan fydd penderfyniadau cynllunio ac amgylcheddol yn destun adolygiad barnwrol. Roeddent o'r farn bod hyn yn gwneud i weithwyr cyfreithiol proffesiynol yn y maes hwn deimlo eu bod eisoes yn gweithio mewn awdurdodaeth ar wahân, i ryw raddau. Gwnaeth pedwar ymatebydd yr un pwynt ynghylch Tribiwnlysoedd yng Nghymru gan nodi bod awdurdodaeth ar wahân eisoes yn bodoli yn achos rhai agweddau ar gyfraith Cymru.

Ym marn y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, pe byddai awdurdodaeth ar wahân ar gyfer Cymru, gallai weithredu y tu mewn i system bresennol y gyfraith gyffredin. Er eu bod yn cydnabod y byddai'n effeithio ar y gyfraith gyffredin dros amser, teimlai'r mwyafrif y gallai Cymru barhau'n rhan o awdurdodaeth y gyfraith gyffredin, yn debyg iawn i'r sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon. Er ei bod yn debygol y byddai'r gyfraith gyffredin yn ymwahanu dros amser, datblygiad araf iawn fyddai hyn ac nid yw'n debygol y byddai Cymru yn ymwahanu oddi wrth gyfraith gyffredin Lloegr yn sydyn.

Dywedodd un ymatebydd y bydd y gyfraith gyffredin yn dal i ddatblygu os na chaiff ei chodeiddio neu ei diddymu neu fod y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi statud yn ei lle. Byddai hyn yn digwydd yn yr un ffordd yn union â phan fydd Senedd y Deyrnas Unedig yn deddfu ar fater o gyfraith arferai ddod o dan y gyfraith gyffredin ee Deddf Atebolrwydd y Deiliaid 1984, a arferai ddod o dan

y gyfraith gyffredin ynghylch niwed i dresmaswyr. Dywedodd ymatebydd arall mai system y gyfraith gyffredin yw sylfaen cyfraith llawer o wledydd y Gymanwlad o hyd, a'i bod yn cael ei haddasu gan ddeddfwriaeth i ddiwallu anghenion gwahanol gymunedau. Ni welai reswm pam na ddylai'r un peth ddigwydd yng Nghymru.

Dywedodd ymatebydd arall fod pwerau deddfu cyfredol y Cynulliad eisoes yn cynnwys y posibilrwydd o addasu manylion y gyfraith gyffredin (i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru). Byddai'n anodd iawn cael eithriadau datganedig yn eithrio'r gyfraith gyffredin o gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Pe byddai awdurdodaeth ar wahân yn cael ei sefydlu, gallai barnwyr Cymru ddatblygu'r gyfraith gyffredin trwy ddehongli, ond byddai Cymru yn dal i fod yn awdurdodaeth cyfraith gyffredin.

Aeth un grŵp o ymatebwyr yn ôl at fater cyfraith elusennau yng nghyd-destun y gyfraith gyffredin. Roeddent hwy'n credu y gallai gwahanu'r awdurdodaethau olygu diffyg cydlyniant yn system y gyfraith gyffredin ar gyfer elusennau gan arwain at ansicrwydd ar gyfer sector elusennau Cymru a Lloegr. Mae datblygiad cyfraith elusennau yn deillio o sawl haen o benderfyniadau barnwrol ac roeddent hwy o'r farn y byddai creu awdurdodaeth ar wahân yn sicr o amharu ar ei parhad.

Roedd yr holl ymatebwyr a gyfeiriodd at gyfraith statud yn teimlo y byddai cyfraith a oedd yn gymwys yn unig i awdurdodaeth gyfreithiol Cymru yn cael ei chydnabod yn gyfraith mewn awdurdodaethau eraill. Dadleuodd tri ymatebydd y dylai'r Goruchaf Lys weithredu fel corff i ddatrys anghydfod pe byddai angen. Teimlai rhai mai mater o raid oedd hyn ac y dylai barnwyr yn awdurdodaethau eraill y Deyrnas Unedig roi sylw i gyfraith statudol o'r fath. Dywedodd dau ymatebydd hefyd y dylai cyfraith statud sy'n gymwys yn unig i awdurdodaeth ar wahân ar gyfer Cymru fod yn berthnasol i achosion sifil a throseddol. Tynnodd un ymatebydd sylw at ddatganiad yr Athro Gerry Maher QC yn dweud y gellid datrys problemau oedd yn codi ynghylch cymhwyso cyfraith statud trwy addasu rheolau sy'n gymwys i'r awdurdodaeth gyfun ar hyn o bryd. Teimlai un ymatebydd y dylid cydnabod cyfraith Cymru yn awdurdodaethau eraill y Deyrnas Unedig, ond fel cyfraith estron. Felly, byddai'n dibynnu ar yr amgylchiadau a fyddai'n cael ei chydnabod fel cyfraith orfodadwy ai peidio.

Roedd rhai'n honni nad yw corff o gyfreithiau yn ddigon gwahanol hyd nes ei fod yn galluogi'r bobl a'r farnwriaeth i fynd i'r afael â'r holl ryngweithio cymdeithasol ac economaidd yn yr awdurdodaeth, heb ddibynnu o gwbl ar gyfraith awdurdodaeth arall ac eithrio cyfraith ryngwladol neu fel aelod ymreolaethol o undeb ryngwladol fel yr Undeb Ewropeaidd. Ym marn ymatebwyr eraill, er bod datganoli wedi rhoi rhagor o bwerau deddfu i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad, roedd yn anodd gweld y byddai unrhyw newid effeithiol yn cael ei wneud i gyfraith trosedd, cyfraith eiddo, cyfraith etifeddiant na chyfraith masnach yn y dyfodol. Yn yr un modd, ni welai rhai ymatebwyr beth oedd pwynt cael awdurdodaeth ar wahân wedi'i seilio ar y corff o gyfreithiau yn unig gan ei bod yn debygol y byddai'r rhan fwyaf o gyfraith Cymru yn ymgorffori'r rhan fwyaf o gyfraith y Deyrnas Unedig beth

bynnag. Roedd rhai'n honni mai deddfwriaeth San Steffan a'r gyfraith gyffredin gyfun a fyddai'n dal i gael eu defnyddio'n bennaf, er gwaethaf canlyniad refferendwm 2011 a phwerau deddfu sylfaenol y Cynulliad.

**Casgliad:**
**Mae Llywodraeth Cymru o'r farn fod corff o gyfreithiau digon gwahanol yn nodwedd allweddol o awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân. Mae corff o gyfreithiau gwahanol yn dod i'r amlwg drwy ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yr ymwahanu cynyddol rhwng cyfreithiau Cymru a Lloegr ddylai fod yr unig ffactor sy'n pennu pryd y dylid creu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân.**

**Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pwynt y bydd unrhyw awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yn y dyfodol yn dal i weithredu o fewn y gyfraith gyffredin ac y byddai unrhyw awdurdodaeth newydd yn dal yn awdurdodaeth cyfraith gyffredin.**

## Gweinyddu Cyfiawnder

Roedd gwahaniaeth barn mawr ar fater gweinyddu cyfiawnder a sefydlu system lysoedd ar wahân o ganlyniad i gael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr naill ai o blaid rhywfaint o ddatganoli, neu'n teimlo bod hynny'n anhepgor er ei fod yn destun rhywfaint o bryder. Roedd y rhai a oedd yn anghytuno â'r egwyddor o gael system lysoedd ar wahân yn teimlo na allai Cymru ddarparu'r seilwaith priodol (hy yr adeiladau angenrheidiol ar gyfer gweinyddu cyfiawnder) na'r Farnwriaeth.

Teimlai llawer o ymatebwyr fod un system lysoedd yn gweithredu oddi mewn i ddwy awdurdodaeth ar wahân yn annoeth ac yn anghynaliadwy. Teimlai rhai bod corff deddfu heb system lysoedd ar wahân neu wahanol fel "cart heb geffyl". Teimlai un ymatebydd fod angen Llys Cymreig rhag i ddinasyddion rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig gymryd mantais o gyfreithiau Cymru o dan y Ddeddf Hawliau Dynol ac yn yr un modd, rhag i drigolion Cymru gymryd mantais o gyfreithiau eraill yn y Deyrnas Unedig. Teimlai ymatebydd arall y byddai awdurdodaeth Gymreig yn mynd yn llai addas ar gyfer barnwriaeth a system lysoedd unedig wrth i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud mwy a mwy o gyfreithiau yng Nghymru i fod yn gymwys yng Nghymru yn unig. Cytunai rhai i raddau llai, gan ddweud bod gwahanu cyfrifoldebau am weinyddu cyfiawnder yn hanfodol er mwyn llwyddo i greu awdurdodaeth ar wahân, ac y dylid seilio unrhyw drefniadau ar gyfer gweinyddu cyfiawnder ar yr hyn sydd orau i bobl Cymru.

Teimlai un ymatebydd mai un o fanteision awdurdodaeth ar wahân ar gyfer Cymru fyddai'r posibilrwydd o gael proses ar wahân ar gyfer adolygiadau barnwrol, a fyddai'n symud datblygiadau a gafwyd yn ddiweddar o ran rhanbartholi'r Llys Gweinyddol yn eu blaen. Roeddent yn credu bod angen amlwg i wrando o leiaf rai achosion yng Nghymru; bod angen gwrando pob achos sy'n ymwneud â chyfraith Cymru mewn llys sydd â chyfleusterau ar gyfer yr iaith Gymraeg; a bod angen annog mwy o ddefnydd o adolygiadau barnwrol yng Nghymru.

Aeth un ymatebydd â'r ddadl hon ymhellach trwy ddweud bod rhesymau cadarn pam y dylai llysoedd yng Nghymru gael awdurdodaeth unigryw dros gyfreithiau sy'n gymwys yng Nghymru yn unig, pwy bynnag a'u gwnaeth, a dylent hefyd gael cymhwysedd unigryw dros achosion sy'n ymwneud â'r corff o gyfreithiau sy'n gymwys yng Nghymru a Lloegr ond a ddylai fel rheol, yn unol ag egwyddorion diffiniedig, gael eu gwrando yng Nghymru. Roeddent yn dadlau nad oes angen gwahaniaethu rhwng y cyrff o gyfreithiau ee cyfreithiau troseddau, sifil ac ati. O'r safbwynt hwn, dim ond llysoedd yng Nghymru fyddai ag awdurdodaeth dros achosion lle defnyddid cyfreithiau sy'n gymwys yng Nghymru yn unig.

Roedd llawer o'r ymatebwyr a oedd yn ffafrio'r status quo yn canolbwyntio'u sylwadau ar y posibilrwydd o gael system lysoedd ar wahân. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hyn yn teimlo y byddai trefn gweinyddu cyfiawnder yn dioddef o gael system lysoedd ar wahân. Teimlai rhai fod system bresennol y

llysoedd yn effeithiol ac yn effeithlon a'i bod yn un o gonglfeini rhyddid y dinesydd. Mae'r Uchel Lys, y Llys Apêl a'r Goruchaf Lys yn cynnig arbenigedd eang a manwl na allai Uchel Lys yng Nghymru ei gynnig. Teimlai rhai ymatebwyr ei bod yn bosibl cael llys traws-awdurdodaethol gyda'r farnwriaeth yn defnyddio'r cyfreithiau a'r gweithdrefnau a fyddai mewn grym yn yr awdurdodaeth dan sylw. Teimlai un grŵp o ymatebwyr bod y gwahanol lysoedd yn yr awdurdodaeth gyfredol eisoes yn cydnabod y newid a fu yn sefyllfa gyfansoddiadol Cymru ar ôl datganoli ac felly nad oes angen system lysoedd ar wahân. Dywedodd ymatebydd arall fod yr awdurdodaeth unedig bresennol yn rhan hanfodol o'r undeb rhwng Cymru a Lloegr ac y byddai ei gwahanu yn golygu na fyddai'r trefniadau yng Nghymru gystal â rhai Lloegr.

Roedd sawl barn wahanol ynghylch strwythur posibl system lysoedd Cymru. Teimlai rhai y dylid datganoli'r holl lysoedd ac eithrio'r lefel uchaf – y Goruchaf Lys. Byddai hynny'n rhoi Cymru yn yr un sefyllfa â rhannau cyfansoddol eraill y Deyrnas Unedig. Galwodd llawer o ymatebwyr am gynrychiolaeth i Gymru yn y Goruchaf Lys, p'un a fydd gan Gymru awdurdodaeth ar wahân ai peidio. Er eu bod yn teimlo y dylid datganoli rhywfaint ar y system lysoedd, roedd eraill o'r farn y dylai'r Llys Apêl a'r Uchel Lys barhau yn Lloegr a gweithredu ar draws yr awdurdodaethau. Dywedodd ymatebydd arall y byddai angen Goruchaf Lys ar gyfer Cymru a system lysoedd – sifil a throseddol – sy'n gwbl ar wahân, pe byddai'r Cynulliad yn cael cymhwysedd deddfwriaethol dros gyfraith trosedd. Yr ymatebydd hwn oedd yr unig un a awgrymodd y dylai Cymru gael Goruchaf Lys ar wahân. Serch hynny, fe ddywedodd un grŵp o ymatebwyr na fyddai angen Llys Apêl ar wahân pe byddai Cymru yn cael awdurdodaeth ar wahân, ar yr amod bod sesiynau'r Llys Apêl yng Nghymru'n cael eu cryfhau.

Ar lefel fwy ymarferol, lleisiwyd cwestiynau ynglŷn â seilwaith y drefn gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Soniodd rhai nad oes carchar menywod na charchar tra diogel yng Nghymru, na charchar o gwbl yn y Gogledd. Yn ôl rhai, pe byddai Cymru yn cael cyfrifoldeb am weinyddu cyfiawnder, byddai angen sefydlu cyrff fel y Comisiwn Penodiadau Barnwrol, trefn ddisgyblu farnwrol, gwasanaeth prawf a rheoli troseddwyr ac ati hefyd. Roedd eraill yn dadlau y byddai angen datganoli plismona hefyd, er mwyn cynnal y drefn, pe byddai Cymru ceisio datganoli gweinyddu cyfiawnder.

Cyfeiriodd eraill at iaith a hygyrchedd y system gyfiawnder. Teimlai rhai y byddai'n gyfle i hybu defnydd o'r iaith Gymraeg a gwella'r gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg pe byddai achosion Cymreig yn cael eu gwrando yng Nghymru. Nododd eraill bod teimlad cyffredinol nad yw'r gyllideb cymorth cyfreithiol yn cael ei gweinyddu'n deg yng Nghymru a phe byddai cyllideb cymorth cyfreithiol Cymru yn cael ei gweinyddu gan gorff Cymreig, byddai'r cyhoedd yng Nghymru ar eu hennill.

Dywedodd rhai aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol y byddai cyfle i wella'r strwythurau barnwrol yng Nghymru er mwyn ymdrin â phroblemau a phwysau sy'n deillio o'r broses ddatganoli, gan sicrhau cysylltiad priodol rhwng y farnwriaeth, y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru. Yn yr un modd, dadleuwyd y dylai'r sawl sy'n gweinyddu cyfiawnder trwy dribiwnlysoedd yng

Nghymru gael annibyniaeth yn eu swyddi ac annibyniaeth mewn penderfyniadau barnwrol, a hynny yng ngŵydd pawb. Byddai angen i hyn barhau pe byddai Cymru yn awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân a byddai angen rhoi ystyriaeth lawn i gefnogi tribiwnlysoedd yng Nghymru a diwallu eu hanghenion gweinyddol.

Dywedodd un ymatebydd y byddai angen i unrhyw newid o ran gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru gael ei ariannu'n iawn a chael digon o adnoddau oddi mewn i fframwaith cyfansoddiadol sy'n sicrhau annibyniaeth y farnwriaeth. Dywedodd ymatebydd arall y dylai'r barnwyr sy'n gweithredu mewn awdurdodaeth gyfreithiol fod yn rhai sy'n gweithredu'n bennaf y tu mewn i'r corff cyfreithiau a ddefnyddir yn yr awdurdodaeth honno, ac felly pe byddai gan Gymru awdurdodaeth ar wahân byddai'n dilyn bod arni angen system lysoedd a barnwriaeth ar wahân.

Roedd eraill o'r farn y byddai modd naill ai rannu barnwriaeth neu symud yn raddol tuag at farnwriaeth ar wahân. Teimlai un ymatebydd y byddai trosglwyddo mwy o'r drefn gweinyddu cyfiawnder yn effeithio'n fawr ar drefniadaeth y barnwyr sy'n eistedd yng Nghymru ac y gallai fod modd cael un farnwriaeth ar gyfer Cymru a Lloegr ond dwy Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ar y llaw arall, gall fod yn bosibl cael barnwriaeth Gymreig ar wahân yn cydweithio â Gweinyddiaeth Gyfiawnder yn Lloegr.

O ran cymhwyso'r gyfraith, roedd bron bob ymatebydd a gyfeiriodd at y mater yn cytuno y byddai cyfreithiau Cymru yn cael eu cydnabod yn gyfraith ledled y Deyrnas Unedig pe byddai Cymru yn awdurdodaeth ar wahân, ac y dylai awdurdodaethau eraill dalu sylw i'w chyfreithiau. Yn ôl rhai, pe byddai cyfreithiau Cymru yn cael eu cydnabod ledled y Deyrnas Unedig, dylid cymryd sylw barnwrol ohonynt a dylent fod yn destun achosion sifil mewn awdurdodaethau eraill. Dywedodd eraill y byddai angen gwneud cytundebau rhwng awdurdodaethau ond nad oedd materion traws-awdurdodaethol yn codi ar y cyfan. Cyfeiriwyd at yr Alban sawl gwaith wrth drafod hyn a chytunwyd y dylid ystyried cyfreithiau Cymru yn yr un modd.

Bu nifer o ymatebwyr yn trafod beth yn union oedd ystyr "gweinyddu cyfiawnder". Teimlai llawer y byddai angen cymhwysedd deddfwriaethol cyffredinol dros gyfraith trosedd pe byddai'r drefn gweinyddu cyfiawnder yn cael ei datganoli. Soniodd tri ymatebydd yn uniongyrchol am y goblygiadau i gyfiawnder troseddol. Dywedodd un ohonynt fod angen dod â chyfiawnder troseddol yn nes at y gymuned yng Nghymru ac y dylai'r llysoedd troseddol fod yn rhan o unrhyw awdurdodaeth ar wahân. Gan fod Cymru yn gallu gwneud cyfreithiau trosedd, mae'n fater o ddilysrwydd democrataidd bod Cymru yn gweinyddu'r corff hwnnw o gyfreithiau wrth iddo ymwahanu oddi wrth gorff cyfreithiau Lloegr. Honnodd ymatebydd arall y byddai Cymru yn elwa o wasanaeth sy'n rhesymol hygyrch ble bynnag yr ydych yn byw yng Nghymru ac sydd ar gael yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Er bod system bresennol y llysoedd yn addas ar gyfer Lloegr, nid yw'n addas ar gyfer Cymru ac fe geir problemau hygyrchedd, yn enwedig yn y Gymru wledig. Byddai'n dda cael system bwrpasol i ateb gofynion Cymru.

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi ystyried goblygiadau ymarferol datganoli'r drefn gweinyddu cyfiawnder a sefydlu system lysoedd ar wahân ar gyfer Cymru, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad oedd yn bosibl mewn egwyddor i Gymru gael system lysoedd ar wahân. O safbwynt cyfraith elusennau, dywedwyd ei bod yn rhaid cael system lysoedd unedig er mwyn osgoi dryswch, gan nad yw cyfraith elusennau a gwaith rheoleiddio elusennau wedi'u datganoli. Mae pryder y byddai awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru yn amharu ar awdurdodaeth Uchel Lys Cymru a Lloegr (a'r Llys Apêl) yn y maes hwn.

Roedd ymatebion eraill yn canolbwyntio ar yr awdurdodaeth unedig bresennol gan ddweud ei bod yn rhan hanfodol o'r undeb rhwng Cymru a Lloegr, ac y byddai ei gwahanu yn golygu na fyddai'r trefniadau yng Nghymru cystal ag yn Lloegr. Holodd ymatebydd arall a oedd gan Gymru Farnwyr o galibr digon uchel i eistedd mewn Uchel Lys neu Lys Apêl Cymreig.

**Casgliad:**
**Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â cheisio pwerau yn awr, ym maes Cyfiawnder Troseddol a Gweinyddu Cyfiawnder yng Nghymru, er ei fod yn amcan yn y tymor hwy. Os na fydd gan Weinidogion Cymru a'r Cynulliad bwerau ym maes Gweinyddu Cyfiawnder, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dal yn gyfrifol am agweddau hollbwysig ar awdurdodaeth ar wahân.**

**Mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad na fyddai cam o'r fath er budd pobl Cymru ar hyn o bryd. Ond mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylem baratoi ar gyfer amser pan allai awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân fod yn angenrheidiol ac yn fuddiol. Fel rhan o'r gwaith paratoi hwnnw, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cryfhau hunaniaeth Cymru oddi mewn i awdurdodaeth Cymru a Lloegr a gosod y seiliau ar gyfer creu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru os penderfynir gwneud hynny yn y dyfodol.**

## Y Proffesiwn Cyfreithiol

O'r holl faterion a godwyd gan yr ymatebwyr, dyma'r pwnc lle cododd y nifer fwyaf o bobl bryderon am oblygiadau'r posibilrwydd o gael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân.

Teimlai un ymatebydd na fyddai angen gwahanu'r proffesiynau cyfreithiol, y cyrff cyfreithiol na'r rheoleiddwyr. Dywedodd ymatebydd arall y gallai Cymru a Lloegr aros gyda'i gilydd yn achos awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân am eu bod yn rhannu traddodiad o gyfraith gyffredin. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod gwahanu'n anochel a'i fod yn nodwedd hanfodol o awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân, ond mai ychydig iawn o effaith a gâi hyn ar y proffesiwn cyfreithiol i ddechrau gan mai cyfraith gyffredin Cymru a Lloegr fyddai'n gymwys hyd nes i'r farnwriaeth yng Nghymru ddatblygu'r gyfraith gyffredin ymhellach. Felly, ar y dechrau, ni fydd yr arferion cyfreithiol yn wahanol i rai Lloegr. Yn yr achos hwn, y teimlad oedd y dylid cadw'r system bresennol ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfreithiol. Wrth i gyfreithiau Cymru a Lloegr ymwahanu, bydd mwy o angen addysg a hyfforddiant cyfreithiol ar gyfer Cymru. Teimlai un ymatebydd ei bod yn rhaid rhoi digon o amser i alluogi pobl i baratoi ar gyfer awdurdodaeth newydd ac y byddai pum mlynedd yn gyfnod rhesymol.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yn gam cadarnhaol ymlaen ar gyfer y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru. Dywedodd rhai bod Cymru yn cael ei gwthio i'r cyrion o dan y system gyfredol a bod y proffesiwn cyfreithiol yn "Llundain-ganolog". Pe byddai Cymru yn dod yn awdurdodaeth ar wahân, byddai hyn yn rhoi cyfle i gyfreithwyr Cymru ddod i'r amlwg a gallai ddenu busnes i Gymru. Byddai hyn hefyd yn arwain at well gwasanaeth i bobl Cymru, mewn meysydd fel yr iaith a'r posibilrwydd o gael mwy o gysylltiad rhwng polisi, gweithredu, datblygu'r gweithlu a darparu gwasanaethau. Mae'r ymatebydd hwn o'r farn y bydd hyn, yn y pen draw, yn arwain at sefydlu rhagor o bractisau cyfreithiol yng Nghymru. Dywedodd un ymatebydd hefyd y gellid sefydlu swyddi newydd a strwythurau gyrfa newydd trwy gael awdurdodaeth ar wahân, gyda rhagor o gyfleoedd i bobl ifanc weithio mewn meysydd ac ar lefelau nad oeddent ar gael yng Nghymru o'r blaen.

Roedd gan lawer o ymatebwyr bryderon am effaith awdurdodaeth ar wahân ar y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru. Yn ôl un ymatebydd, byddai hyn yn cael effaith "ddinistriol" ar broffesiwn y cyfreithwyr. Byddai'n golygu mai ychydig o gyfreithwyr fyddai'n gallu ymwneud â chyfraith Cymru yn unig ac y byddai llai o hyfforddeion am na fyddai'n denu myfyrwyr y gyfraith. Felly, gallai olygu na fyddai digon o gyfreithwyr yn ymwneud â chyfraith Cymru yn unig. Teimlai rhai y byddai'r bobl fwyaf dawnus ym maes y gyfraith yn gadael Cymru am Loegr ac y byddai cleientiaid yn dioddef oherwydd diffyg arbenigedd ym mhractisau cyfreithiol Cymru. Teimlai eraill y byddai sefydlu awdurdod rheoleiddio ar wahân a dysgu cyfraith ac arferion cyfreithiol Cymru yn gostus, ac na fyddai er budd cleientiaid, cyfreithwyr na'r system gyfreithiol yng Nghymru yn gyffredinol.

Roedd llawer yn teimlo y byddai'r tebygrwydd rhwng cyfraith Cymru a chyfraith Lloegr yn hwyluso mynd a dod ar draws y ffin. Teimlent y dylid lleihau unrhyw rwystrau i bargyfreithwyr a chyfreithwyr rhag gweithio yn y ddwy wlad hyd y bo modd. Teimlai rhai ymatebwyr bod problemau difrifol ynghylch cystadleuaeth o safbwynt cleientiaid. Gall y cyhoedd yng Nghymru (a'r tu hwnt) ddewis unrhyw gyfreithiwr neu fargyfreithiwr yng Nghymru neu Loegr ar hyn o bryd. Gallai creu awdurdodaeth a phroffesiwn cyfreithiol ar wahân niweidio dewis a chystadleuaeth ac ni fyddai hynny'n lles i'r cleient. Awgrymodd un ymatebydd nad oes digon o boblogaeth yng Nghymru i gynnal digon o gyfreithwyr, ac y byddai hynny hefyd yn lleihau'r dewis i bobl Cymru. Dywedodd rhai y dylid cael system debyg i'r hyn a geir yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer cyfreithwyr sy'n dymuno gweithio yng Nghymru a/neu yn Lloegr.

O safbwynt addysgu, roedd llawer o wahaniaeth barn a fyddai awdurdodaeth ar wahân yn gwneud drwg neu les. Teimlai rhai bod Cymru yn colli nifer o fyfyrwyr dawnus i Loegr ar hyn o bryd i astudio'r gyfraith neu i fod yn gyfreithwyr. Pe byddai gan Gymru awdurdodaeth ar wahân, byddai'n ennyn diddordeb pobl ifanc mewn pynciau fel cyfreithiau a gwleidyddiaeth Cymru ac yn cael effaith gadarnhaol ar gwricwlwm ysgolion yn gyffredinol gan annog myfyrwyr mwyaf dawnus Cymru i astudio a bod yn gyfreithwyr yn eu gwlad eu hunain. Byddai'n atal myfyrwyr mwyaf dawnus Cymru rhag croesi Clawdd Offa i gael swyddi â chyflogau uwch. Nodwyd y byddai angen datblygu modiwlau ar gyfraith Cymru, a sefydlu seilwaith cysylltiedig ar gyfer addysg gyfreithiol yng Nghymru. Awgrymodd rhai y dylid sefydlu Cyngor Addysg Gyfreithiol yng Nghymru i fod yn gyfrwng ar gyfer cynllunio, rheoleiddio a chefnogi datblygiad addysg ac ysgolheictod yn y byd cyfreithiol yng Nghymru. Byddai angen i'r corff hwn gynnwys cynrychiolwyr o'r Bar, Cymdeithas y Gyfraith a'r Farnwriaeth yn ogystal ag Ysgolion y Gyfraith yng Nghymru. Awgrymwyd y dylid hyfforddi barnwyr yng Nghymru a Lloegr ar y cyd.

Roedd pryderon hefyd y byddai Prifysgolion Cymru yn dioddef pe byddai awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân gan y byddai myfyrwyr o Loegr yn gyndyn o ddod i Gymru. Soniwyd nad oes llawer o fyfyrwyr o Gymru a Lloegr yn mynd i astudio'r gyfraith yn yr Alban, oni bai eu bod am weithio yn yr Alban, oherwydd y gwahaniaeth rhwng y systemau cyfreithiol. Teimlwyd hefyd y byddai'n effeithio ar addysg a hyfforddiant cyfreithiol gan y byddai cyrsiau'n arwain at gymwysterau cyfreithiol ar gyfer awdurdodaeth Cymru yn unig yn feichus i ddarparwyr ac y byddai'r cyfleoedd i fyfyrwyr yn gyfyngedig. Er hynny, roedd rhai'n cydnabod bod sefydliadau yng Nghymru eisoes yn cynnig modiwlau arbenigol ar gyfansoddiad Cymru. Byddai angen trefniadau ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn ymwneud â chyfraith Cymru ynghyd â gwerslyfrau ac adnoddau'n ymdrin yn unig â chyfraith Cymru ac efallai na fyddai hynny'n ymarferol o safbwynt masnachol.
Teimlai rhai y byddai'n rhaid cael hyfforddiant ar wahân pe byddai'n ofynnol i gyfreithwyr weithio yn y ddwy awdurdodaeth. Roedd pryderon hefyd ynghylch cost hyfforddi a chynnal proffesiwn cyfreithiol ar wahân a chost rheoleiddio system gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru. Ymhlith y mesurau a awgrymwyd gan ymatebwyr roedd caniatáu i'r rhai sydd wedi cymhwyso i fod yn gyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr gadw'r cymhwyster am gyfnod amhenodol

ac yna, pa fydd y corff o gyfreithiau Cymreig yn ddigon mawr, dylid cyflwyno tystysgrif cymhwyster yn “y gyfraith sy’n gymwys yng Nghymru”. Teimlai rhai o’r ymatebwyr y byddai cyflwyno bwrdd rheoleiddio ar wahân yn golygu rhagor o gost i gyfreithwyr Cymru a’u cleientiaid gan y gallent orfod talu dwy set o gostau rheoleiddio os ydynt yn dewis ymdrin â chyfraith Cymru a Lloegr.

Teimlai rhai ymatebwyr fod y trefniadau addysgol presennol yng Nghymru a Lloegr o’r safon uchaf a’u bod yn galluogi ymarferwyr cyfreithiol i ymdrin â deddfwriaeth a materion cyfreithiol sy’n deillio o San Steffan, Caerdydd neu Ewrop. Ni fyddai hyn yn wir pe byddai Cymru yn awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân, fodd bynnag, gan na ellid sefydlu trefniadau addysgol cyfatebol ar gyfer Cymru yn unig. Awgrymwyd hefyd fod y system gyfredol yn galluogi myfyrwyr i astudio meysydd arbenigol yn Lloegr ond nad yw’r arbenigeddau hyn ar gael yng Nghymru ac felly byddai dewisiadau cyfreithwyr yn gyfyngedig.

Teimlai nifer o ymatebwyr fod y Bar yng Nghymru a Lloegr yn hanfodol er mwyn cynnal safonau uchaf gweinyddiaeth gyfreithiol ac na ellid atgynhyrchu hyn ar lefel Cymru yn unig. Cyfeiriwyd at Ganada fel gwlad lle ceir awdurdodaethau cyfreithiol ar wahân, pob un â’i chorff rheoleiddio cyfreithiol ei hunan, gyda chorff cenedlaethol yn goruchwylio’r cyfan, ac roedd teimlad y gallai hyn fod yn bosibl yng Nghymru a Lloegr.

Roedd cred hefyd y gallai awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ddod â chyfiawnder yn nes at bobl Cymru, cynyddu effeithlonrwydd, sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud yn gynt, a datblygu arbenigedd ymhlith y proffesiynau cyfreithiol yng Nghymru.

**Casgliad:**
**Nid yw Llywodraeth Cymru wedi’i hargyhoeddi o’r achos dros broffesiwn cyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru. Dylid parhau â’r drefn o gael un proffesiwn cyfreithiol sy’n gallu gweithio yn y ddwy awdurdodaeth.**

## Model Datganoli Cadw Pwerau Yn Ôl

Ar hyn o bryd, mae cymhwysedd deddfwriaethol wedi'i ddatganoli i Gymru o dan fodel trosglwyddo. Yr unig gymhwysedd sydd gan y Cynulliad yw'r cymhwysedd a drosglwyddwyd iddo yn benodol gan Senedd y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn golygu mai dim ond ar y pynciau a restrir yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 y caiff y Cynulliad ddeddfu (a cheir Eithriadau i'r pynciau hynny, sy'n cyfyngu ar allu'r Cynulliad i ddeddfu ar y pynciau yn Atodlen 7). Ar y llaw arall, mae cymhwysedd deddfwriaethol yr Alban wedi'i seilio ar fodel cadw pwerau yn ôl. Mae hynny'n golygu y gall Senedd yr Alban ddeddfu ar unrhyw fater, ar yr amod nad yw'r mater hwnnw wedi'i gadw yn ôl yn benodol o'i gymhwysedd.

Ni chyfeiriodd yr holl ymatebwyr at y mater hwn yn eu tystiolaeth ond roedd y rhan fwyaf o'r rhai a wnaeth o'r farn y byddai awdurdodaeth ar wahân naill ai'n ddymunol neu'n hanfodol pe byddai Cymru yn symud tuag at fodel datganoli cadw pwerau yn ôl. Teimlai rhai bod y model pwerau trosglwyddedig yn diwallu anghenion Cymru ar hyn o bryd ond, pe byddai cyfreithiau Cymru yn ymwahanu fwy oddi wrth gyfreithiau Lloegr, byddai dadl gref dros symud tuag at fodel cadw pwerau yn ôl. Awgrymodd un ymatebydd y byddai symud i fodel cadw pwerau yn ôl yn gwneud awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yn "anochel".

Wrth drafod y mater, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid symud tuag at fodel cadw pwerau yn ôl gan ddweud ei bod yn gwneud synnwyr i ystyried newid y model datganoli gan fod pwerau deddfu'r Cynulliad wedi'u hymestyn. Teimlai rhai y byddai model cadw pwerau yn ôl yn haws i'w weinyddu ac y byddai'n diwallu anghenion Cymru yn well wrth iddi ddechrau deddfu mewn ffordd wahanol i Loegr.

Ychydig iawn o ymatebwyr oedd yn teimlo y byddai model datganoli â phwerau trosglwyddedig yn diwallu anghenion Cymru yn y dyfodol ond roedd rhagor yn teimlo nad oedd llawer o angen newid ar hyn o bryd.

**Casgliad:**
**Cred Llywodraeth Cymru ei bod yn bwysig sicrhau setliad datganoli hirdymor sy'n symlach ac yn gliriach na'r trefniadau presennol, ac sy'n golygu y gellir gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru yng Nghymru. Byddai symud at fodel datganoli cadw pwerau yn ôl yn esbonio pwy sy'n atebol, ac yn gwneud gwrthdaro rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn llai tebygol.**

## Enghreifftiau Rhyngwladol

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at enghreifftiau rhyngwladol o awdurdodaethau ar wahân. System Canada oedd yr enghraifft fwyaf poblogaidd gan ei bod yn system gyfreithiol ddatganoledig lle mae taleithiau ffederal Canada yn gyfrifol am weinyddu cyfiawnder, a llywodraeth Canada yn cadw cymhwysedd am gyfraith trosedd. Roedd hyn yn ymddangos yn system bosibl ar gyfer awdurdodaeth Cymru yn y dyfodol a theimlai rhai y gallai Cymru ddilyn y patrwm hwnnw.

Teimlai rhai ymatebwyr na fyddai angen gwahaniaethu rhwng cyfraith gyffredin Lloegr a chyfraith gyffredin Cymru ar yr amod bod y system gyfreithiol yng Nghymru yn cael ei datblygu ar hyd yr un llinellau â systemau Awstralia, Canada a Seland Newydd. Dadleuodd un ymatebydd na fyddai awdurdodaeth ar wahân yn effeithio ar y gyfraith gyffredin, gan nodi bod sawl awdurdodaeth gyfreithiol yng Nghanada.

Rhoddodd un ymatebydd enghreifftiau eraill sef Slofenia, Slofacia a'r Weriniaeth Siec. Awgrymwyd Slofenia fel enghraifft o weinyddu cyfiawnder mewn gwlad fach, ac mae Slofacia a'r Weriniaeth Siec yn enghraifft o'r ffordd y mae dwy genedl wedi gwahanu eu hawdurdodaethau cyfreithiol.

Er bod rhai o'r dadleuon oedd yn defnyddio enghreifftiau rhyngwladol yn rhai bras iawn, teimlai'r ymatebwyr fod y ffaith fod cynifer o wahanol fathau o awdurdodaethau ym mhedwar ban byd yn cryfhau'r ddadl o blaid awdurdodaeth ar wahân ar gyfer Cymru ac yn cynnig nifer o ddewisiadau heblaw "popeth neu ddim".

Pe byddai Cymru yn awdurdodaeth ar wahân, roedd rhai ymatebwyr yn bendant y gellid ei chynnwys o fewn rheolau traddodiadol cyfraith ryngwladol breifat.

**Casgliad:**
**Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y gellir dysgu llawer oddi wrth awdurdodaethau sy'n bod eisoes ac y bydd angen ystyried hyn cyn symud at awdurdodaeth ar wahân yn y dyfodol.**

## Cost

Cyfeiriodd rhyw un rhan o dair o'r ymatebwyr at gost bosibl sefydlu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân, neu'r effaith bosibl ar yr economi. Teimlai rhai na ddylai'r gost rwystro sefydlu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân; teimlai eraill na fyddai modd cyfiawnhau'r gost. Roedd amryw o ymatebwyr yn bryderus am y gost bosibl, ac yn credu y dylid asesu'r gost debygol yn fanwl cyn penderfynu. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at effaith debygol awdurdodaeth ar wahân ar yr economi hefyd.

Teimlai tri ymatebydd na ddylai'r gost rwystro creu awdurdodaeth ar wahân, neu y byddai'r manteision posibl yn uwch na'r costau, yn y tymor hwy o leiaf. Teimlai un ymatebydd y byddai'n werth talu'r costau amlwg er mwyn datblygu system lywodraethu ddatganoledig, ac fel y cam nesaf i ddatblygu'r rhaniad gwleidyddol a chyfreithiol sydd eisoes yn bodoli rhwng Cymru a Lloegr.

Roedd tri ymatebydd yn bendant o'r farn nad oedd modd cyfiawnhau'r gost. Dywedodd un na fyddai'n briodol gwario arian mewn cyfnod o gyni ariannol fel hyn.

Dywedodd chwe ymatebydd y dylid asesu cost sefydlu awdurdodaeth ar wahân, er mwyn cymharu'r manteision posibl a'r gost, cyn penderfynu. Roedd eraill yn pryderu am agweddau penodol ar awdurdodaeth ar wahân a allai arwain at gost ychwanegol, megis pe byddai proffesiwn cyfreithiol ar wahân yn cael ei sefydlu, gan arwain at gynnydd yn y gost o hyfforddi a chefnogi'r proffesiwn yng Nghymru, a chost uwch strwythurau rheoleiddio; cost dwy set o swyddi barnwrol uwch er mwyn creu barnwriaeth gwbl ar wahân ar gyfer Cymru; a phroblemau posibl i'r Gofrestrfa Dir a'r Comisiwn Elusennau.

Roedd yr ymatebwyr yn awyddus i wybod o ble y deuai'r arian i dalu am awdurdodaeth ar wahân, gan ddweud y byddai angen digon o arian i sefydlu'r awdurdodaeth newydd, ynghyd â'r costau rhedeg parhaus. Holodd un pwy fyddai'n gyfrifol am y gyllideb ar gyfer cyfiawnder - Llywodraeth Cymru neu'r Farnwriaeth.

Yn ogystal â chostau uniongyrchol sefydlu awdurdodaeth ar wahân, tynnodd chwe ymatebydd sylw at yr effaith bosibl ar yr economi, a'r angen i ystyried hynny wrth asesu'r risgiau a'r manteision. Teimlai tri ymatebydd y byddai effaith negyddol ar yr economi, o bosibl. Roedd un arall o'r farn y gallai'r cymhlethdod cynyddol atal busnesau rhag buddsoddi yng Nghymru, a thynnodd un arall sylw at y risg o effaith ar dwf economaidd yn sgil gorfod cydymffurfio â fframweithiau rheoleiddio gwahanol. Dadleuwyd bod system gyfreithiol gyfredol Cymru a Lloegr yn rhoi mantais gystadleuol dros wledydd eraill ac yn annog buddsoddi, fel y gallai awdurdodaeth ar wahân fod yn rhwystr rhag buddsoddi yng Nghymru.

Roedd dau ymatebydd yn credu y byddai effaith gadarnhaol ar yr economi. Cyfeiriodd y ddau at y posibilrwydd o arbed arian i bobl sy'n cymryd rhan mewn achosion llys gan y byddai'r achosion yn cael eu clywed lleol (yn hytrach na'u bod yn gorfod teithio i Lundain) ac y byddai incwm y llysoedd yn

cael ei gadw yng Nghymru. Dadleuwyd hefyd y byddai'n creu swyddi, yn sefydlu strwythurau gyrfa newydd ac yn helpu i ddatblygu arbenigedd y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru.

**Casgliad:**
**Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn rhaid mynd ati'n ofalus i gyfrif costau unrhyw gynigion i symud i gyfeiriad awdurdodaeth ar wahân yn y dyfodol. Os bydd cyfrifoldebau yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru, credwn y dylid trosglwyddo'r cyllidebau llawn hefyd, a sefydlu trefn graffu annibynnol er mwyn sicrhau tegwch.**